Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth



# Rhan 3: **Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru**

Cyhoeddiad gwreiddiol
**17 Mai 2018**

Cyhoeddiad newydd
**25 Ebrill 2023**

## Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'n safonau | 2 |
| Rhagymadrodd | 3 |
| Pedwar maes ymarfer nyrsio | 5 |
| Taith y myfyriwr | 7 |
| 1 Dethol, derbyn a dilyniant | 8 |
| 2 Cwricwlwm | 10 |
| 3 Dysgu ymarfer | 12 |
| 4 Goruchwylio ac asesu | 13 |
| 5 Y cymhwyster a ddyfernir | 14 |
| Geirfa | 15 |

Cymeradwywyd y safonau wedi'u diweddaru hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2023.

# Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein **safonau** ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

**Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr**

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- **Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer**

Gellir canfod gwybodaeth ategol ar gyfer ein **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** ar ein a'n **Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru** ar ein **gwefan**.

Mae'r safonau hyn yn helpu **myfyrwyr** nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion **y Cod**, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

**1** Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

# Rhagarweiniad

Mae ein safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn nodi'r gofynion cyfreithiol, gofynion mynediad argaeledd cydnabod dysgu blaenorol, hyd y rhaglen, gofynion ar gyfer goruchwylio ac asesu a gwybodaeth am y cymhwyster i'w ddyfarnu ar gyfer pob rhaglen addysg nyrsio cyn cofrestru.

Rhaid i nyrsys dan hyfforddiant gwblhau rhaglen cyn cofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus er mwyn cyrraedd y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** a bod yn gymwys i wneud cais i ymuno â chofrestr yr NMC.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â **phobl** drwy gydol eu haddysg ac mae'n bwysig eu bod yn dysgu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau hyn gyda **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** a **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC sy'n gymwys i'r holl raglenni a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid cael cydymffurfiaeth â'r holl safonau hyn er mwyn i sefydliad addysg gael ei gymeradwyo a chynnal unrhyw raglen a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid i **sefydliadau addysg cymeradwy (SACau)** yr NMC sy'n dymuno cyflwyno rhaglenni addysg cyn cofrestru cydymffurfio â'r holl safonau hyn i redeg rhaglen gymeradwy.

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni addysg i gydymffurfio â'n safonau rhaglenni. Maent hefyd yn llunio eu cwricwla yn seiliedig ar y safonau hyfedredd a gyhoeddwyd ar gyfer rhaglen benodol. Asesir myfyrwyr yn erbyn safonau hyfedredd cyhoeddedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal diogel, caredig ac effeithiol sy'n gwella iechyd a lles.

Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd yn ogystal â hyfedreddau ar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn amlygu'r angen i raglenni mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol ar gyfer recriwtio, dethol a dilyniant, gan sicrhau bod derbyniadau a phob proses academaidd arall yn agored, yn deg, yn dryloyw ac yn arddangos dealltwriaeth o ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Trwy ein prosesau **sicrwydd ansawdd** rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn bodloni ein holl safonau mewn perthynas â strwythur a chyflenwi rhaglenni addysg a bod canlyniadau'r rhaglen yn ymwneud â'r hyfedreddau a ddisgwylir ar gyfer cymwysterau penodol. Rydym hefyd yn gwirio bod SACau a **phartneriaid dysgu ymarfer** yn rheoli risgiau yn effeithiol.

Trwy ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol rydym yn monitro risgiau posibl a real i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant, mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddiad o adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Cyn y gellir rhedeg rhaglen, rydym yn gwneud yn siŵr bod y rhaglen arfaethedig yn cyrraedd ein safonau. Rydym yn gwneud hyn drwy broses gymeradwyo, yn unol â'n **fframwaith sicrwydd ansawdd**.

Mae cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol ar gyfer cydymffurfio â safonau NMC yn gorwedd â'r SACau mewn partneriaeth â'r partneriaid dysgu ymarfer.

## Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 15(1) o **Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001** ('**y Gorchymyn**')[2] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd safon hyfedredd. Caiff y **Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru** eu sefydlu yn unol â darpariaeth Erthygl 15(1) o'r Gorchymyn.

**2** OS 2002/253

# Pedwar maes ymarfer nyrsio

Yn unol â Gorchymyn Nyrsys a Bydwragedd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion yn y Gofrestr) y Cyngor 2004 (OS 2004/1765), sy'n nodi y dylai cofnodion yn y gofrestr gynnwys maes ymarfer unigolyn cofrestredig, gall myfyrwyr o'r DU sy'n cymhwyso mewn maes ymarfer penodol fel nyrs lefel 1 wneud cais i fod ar gofrestr yr NMC fel nyrs mewn un neu fwy o'r pedwar maes ymarfer nyrsio: oedolion, plant, anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Mae SACau a'u partneriaid dysgu ymarfer yn gyfrifol ac yn atebol am ddatblygu, cyflwyno a rheoli cwricwla rhaglenni nyrsio cyn cofrestru. Gall rhaglenni nyrsio cyn cofrestru cynnig sawl llwybr tuag at gofrestru. Fodd bynnag, rhaid i bob rhaglen sy'n arwain at broses gofrestru gynnwys llwybrau o fewn y rhaglen sy'n ymwneud yn benodol â'r meysydd perthnasol o ymarfer nyrsio lle ceisir cymeradwyaeth.

Mae'r **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** a gofynion penodol y rhaglenni hyn yn rhoi hyblygrwydd i SACau a'u partneriaid ymarfer gynllunio eu cwricwlwm eu hunain a'r ymreolaeth i benderfynu ar gyfran yr oriau cyffredinol a maes-benodol a ddarperir. Wrth gynllunio cwricwla ar gyfer dyfarniad deuol (hynny yw, rhaglen astudio sy'n arwain at gofrestru mewn dau faes ymarfer nyrsio), mae'r NMC yn disgwyl i'r SAC gynllunio a chyflwyno rhaglen sy'n addas o ran hyd ac sy'n sicrhau bod y myfyriwr yn gymwys i roi gofal diogel ac effeithiol yn y ddau faes nyrsio.

Rhaid i gwricwla rhaglenni gwmpasu'r canlyniadau a nodir yn llwyfannau 1-7 o'r **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** a'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a'r gweithdrefnau nyrsio a nodir yn yr Atodiadau i'r ddogfen honno. Rhaid bod pob myfyriwr nyrsio ym mhob maes nyrsio yn cael yr oruchwyliaeth dysgu a'r asesiadau angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol fel nyrs gofrestredig.

Drwy gynnwys ein defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd yn y broses o gynllunio a chyflwyno cwricwla, credwn y bydd y cyhoedd yn fwy hyderus yn yr addysg a roddir i nyrsys y dyfodol. Anogwn y defnydd o dystiolaeth ategol ac ymgysylltiad gan bobl y mae nyrsys oedolion, plant, anableddau dysgu neu iechyd meddwl wedi gofalu amdanynt er mwyn llywio'r ffordd y cynllunnir ac y cyflwynir rhaglenni ar gyfer pob maes ymarfer nyrsio.

Bydd myfyrwyr nyrsio yn dysgu ac yn cael eu hasesu ym meysydd theori, **efelychu** ac amgylcheddau ymarfer. Rhaid i SACau a phartneriaid lleoliadau ymarfer sicrhau bod myfyrwyr yn cyflawni'r hyfedreddau sy'n berthnasol i'w maes(meysydd) ymarfer nyrsio disgwyliedig erbyn diwedd y rhaglen. Ar ôl cwblhau rhaglen yn llwyddiannus, caiff myfyrwyr cymwysedig eu cofrestru gan yr NMC mewn un maes ymarfer nyrsio neu fwy.

# Taith y myfyriwr

Mae safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru yn dilyn taith y myfyriwr ac maent yn cael eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

**1. Dethol, derbyn a dilyniant**

Safonau ynghylch addasrwydd ymgeisydd a pharhad i gymryd rhan mewn rhaglen cyn cofrestru nyrsio

**2. Cwricwlwm**

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni nyrsio cyn cofrestru

**3. Dysgu ymarfer**

Safonau sy'n benodol i ddysgu cyn cofrestru ar gyfer nyrsio sy'n digwydd mewn lleoliadau ymarfer

**4. Goruchwylio ac asesu**

Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru

**5. Y cymhwyster a ddyfernir**

Safonau sy'n nodi'r isafswm dyfarniad a gwybodaeth mewn perthynas â chofrestru â'r NMC.

# 1 Dethol, derbyn a dilyniant

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**1.1** Gadarnhau ar fynediad i'r rhaglen bod **myfyrwyr** yn:

**1.1.1** cwrdd â gofynion mynediad y rhaglen fel y gosodir allan gan y SAC ac maent yn addas ar gyfer eu maes ymarfer arfaethedig: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**1.1.2** dangos gwerthoedd yn unol **â'r Cod**

**1.1.3** meddu ar y gallu i ddysgu ymddygiadau yn unol **â'r Cod**

**1.1.4** meddu ar y gallu i ddatblygu sgiliau rhifedd sydd eu hangen i gyflawni canlyniadau'r rhaglen

**1.1.5** gallu dangos hyfedredd mewn Saesneg

**1.1.6** meddu ar y gallu mewn llythrennedd i gyflawni canlyniadau'r rhaglen

**1.1.7** meddu ar y gallu i ddatblygu llythrennedd digidol a thechnolegol i gyflawni canlyniadau'r rhaglen.

**1.2** sicrhau bod **iechyd a chymeriad** y myfyrwyr yn ddigonol i'w galluogi i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol pan ddechreuant y rhaglen, gydol y rhaglen a phan gyflwynant y datganiad o iechyd a chymeriad yn unol â Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad[3]. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd galwedigaethol ac archwiliadau cofnodion troseddol boddhaol

**1.3** sicrhau bod y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r gofyn i ddatgan ar unwaith unrhyw rybudd, cyhuddiad, euogfarn neu ryddhad amodol ac unrhyw ddyfarniadau niweidiol a wnaed gan gyrff rheoleiddio, cyrff proffesiynol a sefydliadau addysg eraill, a bod unrhyw ddatganiadau'n cael sylw yn brydlon, yn deg ac yn gyfreithlon

3 Chanllawiau'r NMC ar iechyd a chymeriad

**1.4** sicrhau bod y nyrs gofrestredig sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysgol neu'r nyrs gofrestredig ddynodedig sy'n dirprwyo drosti yn gallu darparu datganiadau ategol o iechyd a chymeriad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen nyrsio cyn cofrestru[4]

**1.5** caniatáu cydnabod dysgu blaenorol y gellir ei fapio i'r **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** a'r canlyniadau rhaglenni hyd at uchafswm o 50 y cant o'r rhaglen

**1.6** ar gyfer nyrsys cofrestredig â'r NMC caniatáu cydnabod dysgu blaenorol y gellir ei fapio i'r **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** â'r NMC a'r canlyniadau rhaglenni a all fod yn fwy na 50 y cant o'r rhaglen

**1.7** cefnogi myfyrwyr gydol y rhaglen drwy ddatblygu'n barhaus eu galluoedd ym maes rhifedd, llythrennedd a llythrennedd digidol a thechnolegol er mwyn cyflawni canlyniadau'r rhaglen.

**4** Rheol 6(1)(a)(i) o Reolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru) 2004 (OS 2004/1767).

# 2 Cwricwlwm

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**2.1** gadarnhau bod rhaglenni yn cydymffurfio â **Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**2.2** sicrhau bod rhaglenni bydwreigiaeth yn cydymffurfio â **Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu**

**2.3** sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglenni yn adlewyrchu **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** a phob un o'r pedwar maes o ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**2.4** cynllunio a chyflwyno rhaglenni bydwreigiaeth sy'n cefnogi myfyrwyr ac yn rhoi profiad o bob un o'r pedwar maes ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**2.5** eu rhaglen nyrsio cyn cofrestru sy'n galluogi myfyrwyr i ymuno â'r gofrestr mewn un neu fwy o'r meysydd ymarfer nyrsio penodol: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu neu nyrsio

**2.6** nodi'r cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i gyrraedd y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig a chanlyniadau** rhaglenni

**2.7** nodi'r cynnwys sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau rhaglenni ar gyfer pob maes ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**2.8** sicrhau bod cynnwys sy'n benodol i faes o ran y gyfraith, diogelu, cydsyniad, ffarmacoleg a gweinyddu meddyginiaethau ac optimeiddio wedi'i gynnwys er mwyn i fyfyrwyr ymuno â'r gofrestr mewn un neu ragor o feysydd ymarfer nyrsio

**2.9** sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cydbwysedd cyfartal o 50 y cant o theori a 50 y cant o ddysgu ymarfer, gan ddefnyddio amrywiol strategaethau dysgu ac addysgu

**2.10** sicrhau bod cyfleoedd technoleg ac efelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur ar draws y cwricwlwm i gefnogi goruchwylio, dysgu ac asesu

**2.11** sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

**2.12** sicrhau bod pob rhaglen o nyrsio cyn cofrestru yn ateb yr isafswm hyd cyfwerth o dair blynedd (academaidd) ar gyfer rhaglenni amser llawn sy'n cynnwys isafswm o 4,600 o oriau

**2.13** sicrhau bod rhaglenni sy'n arwain at gofrestru mewn dau faes ymarfer nyrsio yn addas o ran hyd er mwyn sicrhau hyfedredd yn y ddau faes nyrsio, a

**2.14** sicrhau bod rhaglenni sy'n arwain at gofrestru nyrsio a chofrestru mewn proffesiwn arall yn addas o ran hyd a hyfedreddau nyrsio a chyflawnir canlyniadau mewn cyd-destun nyrsio.

# 3 Dysgu ymarfer

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**3.1** ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu a chyrraedd y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol, i amrywiaeth eang o bobl, ym mhob un o'r pedwar maes ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**3.2** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r amrywiaeth o ymarfer sy'n ddisgwyliedig gan nyrsys cofrestredig er mwyn diwallu anghenion holistaidd pobl o bob oed

**3.3** darparu cyfleoedd dysgu ymarfer sy'n galluogi myfyrwyr i gyflawni'r sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a'r gweithdrefnau nyrsio, fel y'u nodir yn y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig**, a hynny o fewn eu dewis feysydd ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**3.4** darparu dim llai na 2300 o oriau dysgu ymarfer, gydag uchafswm o 600 o oriau a ellir fod yn dysgu ymarfer efelychu

**3.5** cymryd i ystyriaeth anghenion unigol ac amgylchiadau personol y myfyrwyr wrth drefnu eu cyfleoedd dysgu ymarfer, gan gynnwys gwneud **addasiadau rhesymol** ar gyfer myfyrwyr ag anableddau

**3.6** sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o'r ystod o oriau sy'n ddisgwyliedig gan nyrsys cofrestredig, a

**3.7** sicrhau bod myfyrwyr â **statws ychwanegol**.

# 4 Goruchwylio ac asesu

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**4.1** ddarparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a **Fframwaith safonau'r NMC ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth**

**4.2** darparu cefnogaeth, goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu ac asesiadau sy'n cydymffurfio a **Safonau'r NMC ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr**

**4.3** sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r NMC beth yw enw'r nyrs gofrestredig sy'n gyfrifol am gyfarwyddo'r rhaglen addysg

**4.4** rhoi adborth i fyfyrwyr drwy gydol y rhaglen er mwyn eu helpu datblygu

**4.5** sicrhau, drwy gydol y rhaglen, fod myfyrwyr yn cyrraedd y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** a'r canlyniadau rhaglenni yn eu meysydd ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**4.6** sicrhau bod pob rhaglen yn cynnwys asesiad rhifedd iechyd sy'n ymwneud â hyfedreddau nyrsio a chyfrifo meddyginiaethau y mae'n rhaid ennill sgôr o 100% ynddo

**4.7** sicrhau bod myfyrwyr yn bodloni'r holl sgiliau cyfathrebu a rheoli cydberthnasau a'r gweithdrefnau nyrsio o fewn eu meysydd ymarfer nyrsio: oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant

**4.8** asesu myfyrwyr i gadarnhau eu hyfedredd wrth iddynt baratoi i ymarfer yn broffesiynol fel nyrs gofrestredig

**4.9** sicrhau y rhoddir yr un pwysau wrth asesu theori ac ymarfer, a

**4.10** sicrhau bod yr holl safonau hyfedredd yn cael eu cofnodi mewn cofnod parhaus o gyflawni y mae'n rhaid iddo ddangos bod y safonau hyfedreddau a'r sgiliau a nodir yn y **Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys cofrestredig** yn cael eu cyflawni.

# 5 Y cymhwyster a ddyfernir

## Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

**5.1** sicrhau mai'r dyfarniad isaf ar gyfer rhaglen nyrsio cyn cofrestru yw gradd baglor, a

**5.2** hysbysu myfyrwyr yn ystod a chyn cwblhau'r rhaglen fod ganddynt bum mlynedd[5] i gofrestru eu dyfarniad â'r NMC. Os bydd myfyriwr yn methu â chofrestru ei gymhwyster o fewn pum mlynedd, bydd yn rhaid iddo gael addysg a hyfforddiant ychwanegol neu gael y cyfryw brofiad a nodir yn ein safonau.

5 Bum mlynedd

# Geirfa

**Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau):** y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

**Addysgwyr:** yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant, addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

Deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol: mae'n gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a nodweddion eraill. Gall cyfreithiau gwrth-wahaniaethu fod yn wlad-benodol a cheir camau gwarchodol rhyngwladol sy'n gyfreithiol-rwymol.

**Gofynion iechyd a chymeriad:** fel y nodir yn neddfwriaeth yr NMC (Erthyglau 9(2)(b) a 5(2) (b) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001), mae 'iechyd da' yn golygu y gall yr ymgeisydd ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol naill ai gyda neu heb addasiadau rhesymol. Nid yw'n golygu nad oes ganddo gyflwr iechyd neu anabledd. Bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n ceisio ymuno neu ailymuno â'r gofrestr, p'un a yw wedi cofrestru o'r blaen ai peidio, ddatgan unrhyw gyhuddiadau sydd yn yr arfaeth, collfarnau, rhybuddion gan yr heddlu a phenderfyniadau a wnaed gan gyrff rheoleiddio eraill.

**Pobl:** unigolion neu grwpiau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys a bydwragedd, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, gan gynnwys addysgwyr, myfyrwyr ac eraill o fewn a thu allan i'r amgylchedd dysgu.

**Partneriaid dysgu ymarfer:** sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

**Sicrwydd ansawdd:** prosesau'r NMC ar gyfer sicrhau bod yr holl SACau a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

**Addasiadau rhesymol:** lle mae myfyriwr angen addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anabledd neu addasiad sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodwedd a gwarchodedig fel y'i cyflwynir yn neddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Cydnabod dysgu blaenorol:** proses sy'n ei gwneud yn bosibl i ddysgu ardystiedig neu ddysgu drwy brofiad blaenorol gael ei gydnabod a'i dderbyn fel dysgu sy'n cyflawni rhai o ganlyniadau rhaglen, mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys cyflawniadau ym maes theori ac ymarfer.

**Efelychu:** dull addysgol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiad a sgiliau, gyda'r cyfle am ailadrodd, adborth, gwerthuso a myfyrio er mwyn cyflawni canlyniadau eu rhaglenni a'u cadarnhau o allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

**Rhanddeiliaid:** unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â diddordeb neu fudd yn y sefyllfa dan sylw, a all effeithio ar weithrediadau, amcanion neu bolisïau'r sefyllfa honno, neu y gallai'r gweithrediadau, amcanion neu bolisïau hynny effeithio arno. Yng nghyd-destun Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yr NMC, mae hyn yn cynnwys myfyrwyr, addysgwyr, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, rheoleiddwyr eraill a chomisiynwyr addysg.

**Myfyriwr:** unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer rhaglen addysg a gymeradwywyd gan yr NMC, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

**Statws ychwanegol:** rhaid i fyfyrwyr sy'n dysgu wrth ymarfer neu sy'n dysgu yn y gwaith gael eu cefnogi i ddysgu, heb gael eu cyfrif wrth ystyried faint o staff sydd eu hangen i roi gofal diogel ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw. Ar gyfer prentisiaid, mae hyn yn cynnwys lleoliadau ymarfer yn y gweithle; nid yw hyn yn berthnasol pan fyddant yn gweithio yn eu prif rôl.

Dylai lleoliadau alluogi myfyrwyr i ddysgu a darparu gofal diogel ac effeithiol, ac nid arsylwi yn unig; gall myfyrwyr ychwanegu gwerth gwirioneddol at ofal, a dylent wneud hynny. Bydd y cyfraniad a wneir gan fyfyrwyr yn cynyddu dros amser wrth iddynt feithrin hyfedredd a byddant yn parhau i gael budd o arweiniad ac adborth parhaus.

Pan fydd myfyriwr wedi dangos ei fod yn hyfedr, dylai allu cyflawni tasgau heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Mae'r lefel o oruchwyliaeth sydd ei angen ar fyfyriwr yn seiliedig ar farn broffesiynol ei oruchwylwyr, gan ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig â gwybodaeth, hyfedredd a hyder y myfyriwr.

## Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 771,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

**nmc**
**Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)